Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Eglwysbach

**Eglwysbach**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL28 5UD**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Eglwysbach

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Eglwysbach |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 67 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 51 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 10 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 23.0%) | 8.2% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenionol addysg arbennig yn y sector Cynradd yw 16.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 62.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Medi 2015 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 20/01/2014 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Eglwysbach yn gymuned ddiogel, hapus a gofalgar ac mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae’r athrawon a’r cynorthwywyr yn darparu awyrgylch gynhwysol, gynhaliol sy’n adlewyrchu arwyddair yr ysgol, ‘Wrth gredu yn ein gilydd mae’r hud yn cychwyn.’ Mae’r disgyblion yn frwdfrydig tuag at eu dysgu ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y modd y maent yn cydweithio’n hapus â’i gilydd. Maent yn gwrando’n astud ac yn mwynhau dysgu pethau newydd. Maent yn dyfalbarhau’n llwyddiannus er mwyn llwyddo gyda’u tasgau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cydweithio’n aeddfed gan wneud penderfyniadau ynglŷn â’u dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae’r rhai sy’n hwyrddyfodiaid i’r Gymraeg yn gwneud cynnydd cadarn gyda’r iaith, gan fagu hyder yn fuan. Ar draws yr ysgol, yn y rhan fwyaf o wersi, mae’r disgyblion yn ymroddgar ac yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen yn mwynhau amrediad cyfoethog o brofiadau dysgu yn yr adeilad ac yn yr ardaloedd tu allan.

Mae’r ysgol wedi ymateb yn flaengar a chreadigol i ofynion y Cwricwlwm i Gymru. Mae blaengaredd y ‘p’nawniau prysur,’ yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion hŷn yr ysgol ddatblygu a chymhwyso’u medrau mewn modd annibynnol. Mae’r disgyblion yn y frwdfrydig iawn ac yn dyfalbarhau'n arbennig o dda yn ystod y gweithgareddau hyn. Mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei sefydlu’n gadarn yn eu cynefin yn Nyffryn Conwy. Mae’r disgyblion yn dysgu am chwedlau, hanes a diwylliant yr ardal, ac mae hyn yn cyfoethogi eu dysgu’n llwyddiannus.

Mae gan y pennaeth a’r llywodraethwyr weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar gynnal gwelliant parhaus o fewn ethos cartrefol a gofalgar. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ac mae’n gosod amcanion strategol sy’n canolbwyntio’n glir ar godi safonau, a chynnal lles disgyblion. Mae’r athrawon a’r cynorthwywyr yn dîm ymroddgar ac maent yn cydweithio’n effeithiol wrth gyflawni eu dyletswyddau.

## Argymhellion

A1 Cryfhau medrau darllen disgyblion

A2 Ehangu’r cyfleoedd i ddatblygu profiadau addysg gorfforol y disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â’r prynhawniau prysur a grwpiau disgyblion sy’n canolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm i Gymru, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda'u medrau yn y man disgwyliedig ar gyfer eu hoedran oni bai am eu medrau llafar Cymraeg lle mae'r mwyafrif islaw'r hyn a ddisgwylir. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn gwneud cynnydd cadarn yn yr iaith, gan fagu hyder yn fuan. Ar draws yr ysgol, yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r disgyblion yn dwyn eu dysgu blaenorol i gof yn hyderus ac yn adeiladu arno'n llwyddiannus.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn chwarae'n hapus ac annibynnol gyda'u ffrindiau yn ardaloedd y ddarpariaeth tu mewn ac oddi allan i'r adeilad. Maent yn cynnal eu diddordeb yn dda ac yn cydweithio er mwyn datrys problemau. Er enghraifft, maent yn grwpio gwahanol wrthrychau gyda'i gilydd wrth ragfynegi pa rai fydd yn suddo a pha rai fydd yn arnofio. Maent yn datblygu medrau cydbwysedd a hyder corfforol wrth ddefnyddio gwahanol feiciau dwy a thair olwyn. Maent yn datblygu amrediad da o fedrau modur mân wrth rolio toes, wrth wehyddu a dysgu torri gyda sisyrnau.

Mae disgyblion y dosbarth meithrin a'r derbyn a Blwyddyn 1 a 2 yn datblygu hyder ac annibyniaeth wrth gyflawni gwahanol heriau yn yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft, maent yn creu cyflwyniad o safbwynt plentyn sy'n byw yn Affrica gan recordio eu hunain gyda chyfrifiadur llechen. Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn siarad yn hyderus a chwrtais. Mae'r disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn magu hyder ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r anogaeth i ddefnyddio'r iaith gyda'u ffrindiau ac oedolion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y meithrin a'r derbyn yn adnabod nifer cynyddol o lythrennau a chymalau syml ac yn dechrau creu'r synau sy'n gysylltiedig â nhw. Ym Mlwyddyn 1 a 2, mae'r disgyblion yn mwynhau gwrando ar straeon ac yn trafod y cymeriadau yn llawn bwrlwm a brwdfrydedd. Mae llawer o ddisgyblion mwy galluog Blwyddyn 2 yn darllen yn aeddfed a rhwydd. Maent yn trafod rhediad y stori a'r cymeriadau yn hyderus. Mae mwyafrif disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn darllen yn hyderus, gan drafod eu hoff awduron a chymeriadau'r stori a ffeithiau difyr maent wedi eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn arddangos medrau trawsieithu da wrth drafod pwysigrwydd y berthynas rhwng geirfa'r Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd modern eraill fel Ffrangeg. Mae llawer yn darllen yn rhwydd a rhugl. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae lleiafrif yn llai hyderus wrth ddefnyddio strategaethau darllen, fel hunangywiro a darllen o amgylch y testun, ac nid ydynt yn ystyried ystyr y testun yn ddigon manwl bob amser.

Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn arddangos gafael gynyddol gadarn ar ofynion sillafu ac atalnodi syml. Maent yn ysgrifennu gyda chywirdeb priodol mewn amrywiol gyd-destunau ac mewn amrywiol ffurfiau, er enghraifft wrth greu disgrifiad ffeithiol o sut i edrych ar ôl oen llywaeth. Ym Mlwyddyn 3 a 4, mae'r disgyblion yn cyfansoddi llythyr teimladwy gan blentyn a symudodd i ardal Eglwysbach i osgoi'r blitz yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ysgrifennu i safon dda yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn creu darnau estynedig ffeithiol a dychmygus sy'n trafod agweddau lleol fel trychineb argae Dolgarrog. Ar y cyfan, maent yn sillafu ac atalnodi gyda chywirdeb da.

Ar draws yr ysgol, mae medrau rhif, siâp a thrin data'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Yn y blynyddoedd cynnar, mae'r disgyblion yn mwynhau mesur eu taldra gyda gwlân a'i gosod ar y wal i'w cymharu. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cymhwyso'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau cyfredol a diddorol. Er enghraifft, maent yn dod o hyd i gostau sy'n gysylltiedig â threfnu taith i Qatar ar gyfer cystadleuaeth cwpan y byd gan ddarganfod y gost mewn punnoedd wrth gymharu'r gyfradd trosi o arian Qatar.

Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn cymhwyso amrywiol fedrau digidol yn hyderus. Mae llawer yn defnyddio technoleg y sgrin werdd er mwyn creu cefndir i'w cyflwyniad fel rhan o'u gwaith thema. Mae llawer yn gwneud defnydd effeithiol o apiau er mwyn gwerthuso eu gwaith.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn arddangos dealltwriaeth dda o godio syml er mwyn rheoli a mewnbynnu cyfarwyddiadau. Fel rhan o'u gwaith 'p'nawniau prysur,' maent yn animeiddio chwedlau lleol yn hynod effeithiol, gan ychwanegu sain.

Mae'r disgyblion hŷn yn ymateb yn aeddfed i gyfleoedd i ddewis pa weithgareddau yr hoffent eu cyflawni o arlwy amrywiol. Er enghraifft, maent yn creu llyfryn ymchwil wedi ei seilio ar barciau cenedlaethol Cymru, ac yn ymchwilio i sut mae artistiaid yn cyfleu naws yn eu lluniau. Mae'r gwaith hwn yn waith diddorol a blaengar. Mae'n hybu cyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso eu medrau'n annibynnol mewn gwahanol gyd-destunau cyfoethog.  Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn dysgu llawer trwy waith y 'grwpiau pedwar diben'. Mae prosiectau sy'n canolbwyntio ar agweddau fel dydd Miwsig Cymru, a'r gwaith ar daith cerdded Wcrain, yn gyfle i'r disgyblion ddatblygu hyder ac annibyniaeth, ac i arwain a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth, mewn gwasanaethau ac wrth symud o amgylch yr ysgol a'i thir. Maent yn gwrtais iawn ac yn dangos parch aeddfed tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae bron bob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac yn cydweithio a chyd-chwarae'n hapus. Maent yn falch o'u hysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn y naws gynhwysol a theuluol sy'n bodoli ynddi. Mae'r disgyblion yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff, ac yn hyderus i wrando arnynt. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda iawn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn deall pwysigrwydd ymarfer corff ac maent yn hyderus wrth drafod y gwahanol fathau o weithgareddau sy'n caniatàu iddynt gadw'n heini. Maent yn siarad yn frwdfrydig am weithgareddau corfforol fel nofio ac yn defnyddio'r llwybr dringo sydd ar gael ar dir yr ysgol i ddatblygu eu medrau corfforol. Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a'r effaith mae hyn yn ei chael ar ddatblygiad y corff.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn arddangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud yn eu dosbarthiadau ac yn mwynhau dysgu cysyniadau newydd. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn barod i ddyfalbarhau er mwyn llwyddo gyda'u tasgau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cydweithio'n aeddfed gan wneud penderfyniadau ynglŷn â'r dull mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â thasg.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn ddeallus i adborth oedolion a'u cyfoedion. Ar frig yr ysgol, maent yn trafod gwaith ei gilydd yn hyderus gan gyfeirio at y meini prawf llwyddiant yn briodol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Maent yn cyfrannu'n bwrpasol i'w dysgu trwy ddarparu syniadau a gofyn cwestiynau am y thema. O ganlyniad, maent yn dangos diddordeb a brwdfrydedd ac yn dyfalbarhau wrth ddilyn gwahanol drywyddau ymchwil.

Trwy eu hymwybyddiaeth o'r gwerthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol. Mae bron bob disgybl yn deall pwysigrwydd cefnogi pobl eraill mewn cymdeithas ac maent yn awyddus i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, maent wedi codi swm sylweddol o arian ar gyfer plant Wcrain trwy drefnu taith gerdded noddedig. Fel rhan o'u gwaith ar hawliau plant, mae'r disgyblion hŷn yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion am bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar. Maent yn ymateb yn aeddfed iawn i symbyliadau'r athrawon wrth drafod goddefgarwch ac ymwybyddiaeth o hawliau bobl.

Mae aelodau'r amryw gynghorau ysgol yn falch o'u rolau ac yn cymryd eu dyletswyddau o ddifri. Maent yn cynllunio'n ddiwyd i wella'r ysgol. Er enghraifft, mae'r Criw Cymraeg yn weithgar iawn ac wedi annog yr awdurdod lleol i ariannu offer chwarae cerddoriaeth i hybu defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn ystod amser egwyl. Maent hefyd yn hybu parch tuag at yr amgylchedd trwy gasglu sbwriel a phlannu planhigion er mwyn harddu tir yr ysgol. Mae hyn yn datblygu'r disgyblion i fod yn ddinasyddion moesol a gwybodus.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion yn effeithiol. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru sydd wedi seilio ar hyrwyddo cymuned ofalgar lle mae'r disgyblion yn cael eu herio a'u hannog i wneud eu gorau. Mae arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr yn diwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion yn effeithiol, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion bregus.

Mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun y gymuned yn llawn, gan gynnwys dylunio gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu natur ieithyddol a diwylliannol yr ardal. Mae'r cwricwlwm wedi ei seilio yn y gymuned o fewn Dyffryn Conwy, ac yn adlewyrchu diwylliant a hanes yr ardal yn effeithiol. Mae gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant cyfoes Cymru yn atgyfnerthu Cymreictod yr ysgol yn llwyddiannus. Mae hyn yn hybu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion o wahanol gefndiroedd ieithyddol. Mae perthynas agos iawn rhwng yr ysgol a'r rhieni ac mae llif wybodaeth am gynnydd disgyblion yn sicrhau bod gan rieni wybodaeth gyfredol am gynnydd a lles eu plant.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu am eu hardal a rhannu gwybodaeth am waith a diddordebau eu teuluoedd. Er enghraifft, mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ddod ag anifeiliaid y fferm i mewn i'r ysgol pan fyddant yn paratoi cyflwyniad am eu diddordebau. Mae hyn yn adeiladu balchder a hunanhyder y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn darparu profiadau dysgu dilys a difyr ar gyfer disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol y disgyblion yn effeithiol. Mae cwricwlwm cynhwysol yn hyrwyddo cyfle teg i'r holl ddisgyblion elwa ar brofiadau, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn cynllunio ac yn cyflwyno dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cwricwlwm, er enghraifft wrth hyrwyddo'r defnydd o fannau awyr agored a defnyddio ymweliadau i gefnogi datblygiad dealltwriaeth disgyblion. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu medrau corfforol, cryfder a chydbwysedd trwy wahanol weithgareddau yn yr awyr agored. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd creadigol o dir yr ysgol er mwyn hyrwyddo datblygiad corfforol. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu gwahanol fedrau fel gymnasteg a dawns drwy weithgareddau addysg gorfforol.

Mae'r athrawon yn defnyddio syniadau'r disgyblion ynglŷn â chyfeiriad nesaf y dysgu yn gelfydd. Mae ganddynt gynlluniau addas er mwyn sicrhau bod y meysydd dysgu a phrofiad yn derbyn sylw priodol, ac maent yn annog y disgyblion i rannu eu syniadau fel bod ganddynt berchnogaeth o'r cyd-destun ar gyfer y dysgu. Mae'r athrawon wedi datblygu gweithdrefn benodol ar gyfer cofnodi cynnydd y disgyblion ac yn gwerthuso'r trefniadau er mwyn cadarnhau eu bod yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt.

Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn cynnig adborth o ansawdd da sy'n helpu'r disgyblion i wella eu gwaith. Mae gweithgareddau yn cael eu cynllunio'n ofalus gyda lefel yr her yn cael ei haddasu yn unol ag anghenion unigolion a grwpiau. Lle mae'r berthynas adborth ysgrifenedig wedi datblygu'n llawn, yn enwedig ym mhen uchaf yr ysgol, mae gan y disgyblion afael gadarn ar sut i ddefnyddio adborth gan gymheiriaid ac athrawon wrth ailddrafftio a datblygu eu gwaith.

Mae arweinwyr ac athrawon yn ymateb yn frwdfrydig i anghenion y Cwricwlwm i Gymru, gan gynllunio'n unol â'r meysydd dysgu a phrofiad. O fewn blynyddoedd y cyfnod dysgu sylfaen, mae ardaloedd diddorol yn darparu amrediad cyfoethog o weithgareddau ar gyfer y disgyblion. Yn yr ardal ddarganfod, er enghraifft, ceir her i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 ddychmygu eu bod yn byw yn Botswana. Maent yn dewis gwisgoedd ar gyfer y daith gan ddefnyddio sgrin werdd fel cefndir a recordio eu hunain yn disgrifio'r profiad o fyw yn Affrica.

Mae'r ysgol wedi datblygu blaengaredd 'p'nawn prysur,' sy'n darparu cyfle I ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau mewn cyd-destunau amrywiol. Er enghraifft, fel rhan o'u gwaith o fewn y thema 'Rhyfeddodau,' mae'r disgyblion yn dethol gweithgareddau o arlwy gyfoethog ac yn gweithio'n annibynnol arnynt er mwyn eu cyflawni. Maent yn creu llyfryn ymchwil wedi ei seilio ar barciau cenedlaethol Cymru, ac yn ymchwilio i sut mae artistiaid yn cyfleu naws a syniadau gan ddefnyddio cyfryngau gwahanol. Mae'r disgyblion yn ymateb yn eiddgar iawn i'r gwahanol weithgareddau ac yn dyfalbarhau'n arbennig o dda yn ystod y sesiynau hyn.

Mae'r athrawon wedi datblygu cynghorau ar gyfer pedwar diben y cwricwlwm sy'n cael eu llywio gan grwpiau o ddisgyblion blynyddoedd hynaf yr ysgol. Maent wedi cydweithio â'r athrawon er mwyn creu gwaith prosiect penodol. Mae'r prosiectau, sy'n canolbwyntio ar agweddau diddorol fel dydd Miwsig Cymru, a'r gwaith 'Ar daith cerdded Wcrain,' yn gyfle i'r disgyblion ddatblygu hyder ac annibyniaeth, ac i arwain

a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu. Mae'r nodweddion hyn yn flaengar a chreadigol iawn ac yn rhan flaenllaw o weledigaeth yr ysgol ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae staff yr ysgol yn creu cymuned ddiogel, hapus a gofalgar sy'n llwyddo i feithrin medrau personol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn darparu awyrgylch gynhwysol, gynhaliol sy'n adlewyrchu arwyddair yr ysgol, 'Wrth gredu yn ein gilydd mae'r hud yn cychwyn.' Mae cefnogaeth ar gyfer anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion wedi'i gwreiddio yn holl waith yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a brwdfrydedd y disgyblion at ddysgu ac yn cael ei hadlewyrchu yn eu hymddygiad.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i wahanol heriau COVID-19 dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r ysbryd o gydweithio cryf rhwng yr holl staff wedi bod yn allweddol i hyn. Rhoddwyd pwyslais mawr ar les wrth i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol wedi'r cyfnodau clo gan gynnwys cynnal cyfres o sesiynau awyr agored er mwyn hyrwyddo eu lles, iechyd meddwl a'u medrau cydweithio. Mae'r berthynas gadarnhaol â'r rhieni, ynghŷd a'r ddarpariaeth gref yn yr ysgol, wedi golygu bod bron bob disgybl wedi dychwelyd i fywyd, gwaith a threfn ysgol yn llwyddiannus.

Mae dathlu Cymreictod a bod yn gwbl ddwyieithog yn rhan annatod o fywyd yr ysgol. Gwneir defnydd helaeth o ymwelwyr fel beirdd, cerddorion ac awduron i gyfoethogi profiadau disgyblion. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn elwa'n fawr ar ddysgu am hanes a chwedlau lleol fel stori'r Garrog a hanes boddi Cwm Celyn. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ymchwilio i effaith digwyddiadau trawiadol yn yr ardal fel storm fawr Gerddi Bodnant a thrychineb Dolgarrog. Mae'r cysylltiadau amrywiol hyn yn cryfhau ymdeimlad y disgyblion o berthyn i'r gymuned, ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u hardal leol yn llwyddiannus. Mae athrawon hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am y byd ehangach. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion hŷn am arweinwyr y Senedd a llywodraeth San Steffan ac wrth ymchwilio i wybodaeth am y trychineb diweddar yn Wcráin.

Mae ethos yr ysgol a'r gwasanaethau cydaddoli yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog disgyblion i fyfyrio ar werthoedd fel tegwch, cyfeillgarwch a charedigrwydd ac i ystyried safbwyntiau eraill yn sensitif, er enghraifft wrth drafod effeithiau bwlio. Mae trafodaethau am drychinebau byd-eang, fel y rhyfel yn Wcrain, yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd goddefgarwch a'r hawl i fod yn rhydd rhag aflonyddwch.

Mae'r ysgol yn dilyn systemau sefydlog i gasglu gwybodaeth am gynnydd a chyflawniadau disgyblion. Maent yn cynnwys asesiadau crynodol a chofnodion anffurfiol, sy'n plethu i greu darlun cynhwysfawr am yr unigolyn. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i adnabod anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn darparu ymyrraeth mewn modd sensitif a phriodol. Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r diwygiadau yn y ddeddf anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn creu cynlluniau addysg unigol priodol ac yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd gyda rhieni. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol â nifer o asiantaethau arbenigol fel therapyddion iaith a'r seicolegwyr addysg sy'n darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion.

Rhoddir pwyslais clir ar safbwyntiau'r disgyblion ar ddechrau themâu ac wrth gynllunio gweithgareddau, gan hefyd roi cyfleoedd cyson iddynt gyfrannu'n dda i fywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft drwy'r cyngor ysgol a chynghorau'r pedwar diben. Drwy'r cynghorau hyn, caiff disgyblion gyfleoedd i gynllunio, trefnu a chynnal amrywiaeth eang a chyfoethog o weithgareddau, fel Diwrnod Owain Glyndwr, Dydd Miwsig Cymru, Plant mewn Angen ac ymgyrch Wcrain. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol ac yn datblygu'n dda fel dysgwyr a dinasyddion hyderus a gofalgar.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn llwyddiannus. Gwneir defnydd effeithiol o ymwelwyr i ehangu profiadau creadigol disgyblion, er enghraifft wrth i gerddorion ymweld â'r ysgol i gyd-gyfansoddi a pherfformio caneuon gyda nhw. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hyder llawer o'r disgyblion ynghyd â'u gallu i gydweithio'n effeithiol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson a gwerthfawr i ddisgyblion weithio'n greadigol gydag amrywiaeth o ddeunyddiau, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 greu anifail dychmygol neu efelychu gwaith artistiaid enwog Cymreig.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn annog disgyblion i fwyta'n iach ac i ddatblygu ffitrwydd drwy amrywiaeth o weithgareddau corfforol. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw ac o bwysigrwydd cadw'n heini.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol er mwyn monitro presenoldeb disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol â rhieni ag asiantaethau lles er mwyn hyrwyddo presenoldeb da. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus yn drwyadl.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau bod disgyblion a staff yn cynnal gwelliant parhaus mewn awyrgylch gartrefol a gofalgar. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ac mae'n gosod amcanion strategol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau, a chynnal lles disgyblion. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn cyfrannu at wireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus trwy gynnal gwerthoedd fel gofalu am ein gilydd a thegwch i bawb. Mae rolau a chyfrifoldebau'r staff wedi eu diffinio'n dda, ac mae pob un yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol ac effeithiol. Mae'r gwaith tîm yn gryfder yn yr ysgol, gyda'r staff ymroddgar yn cydweithio'n llwyddiannus.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda. Maent yn cefnogi gwaith yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n gydwybodol. Mae llawer ohonynt yn ymweld â'r ysgol yn gyson, yn craffu ar lyfrau ac yn siarad â'r disgyblion am eu gwaith. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o safonau cyrhaeddiad y disgyblion ynghyd ag ansawdd yr addysgu. Trwy dderbyn a thrafod adroddiadau trylwyr y pennaeth, maent yn cyfrannu'n ddoeth at osod cyfeiriad strategol yr ysgol. Maent yn defnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynnydd yr ysgol yn llwyddiannus. Mae eu rôl fel ffrind beirniadol wedi sefydlu'n gadarn.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n ofalus i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol ac yn addasu'r cynlluniau gwaith cyfredol i adlewyrchu gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod cyfleoedd cyson i athrawon gyfrannu at weithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol. Mae'r gweithdrefnau gwerthuso trefnus yn cyfrannu'n fuddiol

at osod blaenoriaethau priodol i wella’r ddarpariaeth a chodi safonau, er enghraifft wrth gydweithio i godi safonau darllen. Mae arweinwyr yn monitro'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan yr ysgol hanes cryf o adolygu eu harfer a chynnal safonau.

Mae’r arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i’r athrawon a’r cynorthwywyr wella eu harfer. Mae’r staff yn rhannu arfer dda o fewn yr ysgol trwy gynnal arsylwadau dosbarth a chydweithio i ddatblygu agweddau ar eu cwricwlwm. Yn dilyn ymweliadau ag ysgolion eraill a chyfleoedd dysgu proffesiynol penodol, mae’r staff yn arwain cyfarfodydd i rannu gwybodaeth, gan fagu hyder a chyfoethogi’r dysgu. O ganlyniad i hyfforddiant ymysg staff ysgolion lleol, cafwyd cyfleoedd i graffu ar sut mae disgyblion yn magu hyder i wella eu gwaith trwy ymateb i adborth. O ganlyniad i rannu’r arfer dda, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dibynnu llai ar fewnbwn athrawon. Mae’r trefniadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr ardaloedd ymarferol yn nosbarthiadau’r disgyblion iau, ac ar ansawdd gwaith ysgrifenedig disgyblion hŷn.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus ag ysgolion lleol i wella’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion, er enghraifft trwy gyd-gynllunio gweithgareddau o fewn themâu penodol. Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol ag asiantaethau allanol, fel y gwasanaethau cymdeithasol, seicolegwyr addysg ac arbenigwyr meddygol. Mae’r partneriaethau hyn yn cefnogi’r disgyblion mwyaf bregus a’u teuluoedd yn llwyddiannus.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli’r gyllideb yn ofalus ac mae gwariant yn cysylltu’n dda â’r cynlluniau ar gyfer gwella. Maent yn cadw llygad craff ar wariant er mwyn sicrhau gwerth am arian. Gwneir defnydd priodol o’r grant datblygu disgyblion i gefnogi’r unigolion sy’n gymwys.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/01/2023